



Maniffesto ar gyfer fferylliaeth yng Nghymru

Cyflwyniad

Fel y trydydd proffesiwn mwyaf sy'n gweithio yn y GIG mae fferyllwyr yn rhan greiddiol o wasanaethau iechyd yng Nghymru. Maent yn weithwyr proffesiynol tra hyfforddedig ar ôl dilyn gradd meistr 4 blynedd, blwyddyn o hyfforddiant cyn-gofrestru ac addysg bellach orfodol trwy gydol eu gyrfaedd. Maent yn arwain ar y defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau o fewn y GIG ac maent yn cefnogi cleifion i aros yn iach ac i allu cael y gorau o'u meddyginiaethau a'r buddsoddiad sylweddol mewn meddyginiaethau a wneir yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae'r proffesiwn fferyllol yn esblygu ar gyflymder, gan addasu i anghenion newidiol gofal iechyd yr oes tra'n paratoi ei hun i ddarparu ymyriadau clinigol lle bynnag y mae angen gofal fferyllol. Daeth pwysigrwydd arweinyddiaeth glinigol a gweithredol fferyllfa i ganolbwynt gan y pandemig COVID-19 lle roedd y tîm fferyllol yn cynnal cyflenwad meddyginiaethau ac yn sicrhau parhad gofal cleifion ym mhob lleoliad ac o dan amgylchiadau heriol iawn. Er gwaethaf hyn ac ymrwymiad y proffesiwn i ateb y galw cynyddol gan gleifion, mae llawer o aelodau RPS wedi nodi eu bod yn teimlo bod eu capasiti yn cael ei ymestyn yn ormodol, heb ddigon o adnoddau a hyd yn oed heb gydnabyddiaeth o'u rôl glinigol.

Rhaid i Lywodraeth Gymru nesaf droi hyn o gwmpas a rhaid i bobl Cymru elwa o botensial llawnaf y proffesiwn fferylliaeth trwy gydol cyfnod 6ed Senedd Cymru. Yn erbyn cefndir o argyfwng iechyd cyhoeddus, blaenoriaethau cyfnewidiol a chyfluniadau gwasanaeth newydd, mae'r maniffesto hwn yn nodi'r camau a all ychwanegu gwerth pwysig i raglen bolisi nesaf Llywodraeth Cymru i wella gofal cleifion ac i gyfrannu at gynaliadwyedd y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

Gofynion Allweddol



Ymgorffori galluoedd clinigol y tîm fferyllol ar draws holl leoliadau'r GIG trwy gynllunio gweithlu aml-broffesiynol cadarn, addysg a datblygiad proffesiynol.




Sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at therapiau ffarmacogenomig sy'n dod i'r amlwg trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant a gwasanaethau fferyllwyr.



Datblygu ymhellach rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr, gan gynnwys cynyddu hyfforddiant ac ymestyn yn genedlaethol gwasanaethau y profwyd eu bod o fudd i gleifion ac yn gwella capasiti.



Cefnogi fframwaith cyfreithiol i ganiatáu i fferyllwyr cymunedol wneud penderfyniadau proffesiynol wrth gyflenwi meddyginiaethau i gleifion ar adegau o brinder meddyginiaethau.



Gostwng risg o wallau meddyginiaeth a derbyniadau brys i'r ysbyty trwy ganiatáu i bob fferylllydd gael mynediad at gofnodion cleifion sy'n cael eu rhannu'n electronig a'u



Gwella ansawdd gofal cleifion trwy warantu amser dysgu ac addysgu wedi'i neilltuo i fferyllwyr ar draws pob sector.



Cyflwynu datblygiad a chyflwyno atebion digidol ledled Cymru.



Sicrhau gofal o'r ansawdd uchaf trwy gefnogi iechyd a lles fferyllwyr a'u timau trwy fynediad at gymorth iechyd meddwl a lles a ariennir gan y GIG.

Er mwyn galluogi cleifion i elwa o sgiliau a gwybodaeth unigryw fferyllwyr, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru nesaf i:

1

Ymgorffori galluoedd clinigol y tîm fferyllol ar draws holl leoliadau'r GIG trwy gynllunio gweithlu aml-broffesiynol cadarn, addysg a datblygiad proffesiynol.

Mae angen ail-ddylunio addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr i greu gweithlu fferyllol gwirioneddol ystwyth o fewn y tîm aml-broffesiynol, sydd â'r gallu i symud rhwng lleoliadau gofal iechyd ac i ddarparu'r ymyriadau clinigol cywir ar bob cam o lwybr y claf.

Rhaid i Lywodraeth Cymru nesaf adeiladu ar y rhaglen ddysgu drawsnewidiol sydd eisoes ar waith, gan roi cyfle i fferyllwyr cyn-gofrestru ddatblygu eu harfer clinigol ar draws lleoliadau cymunedol, gofal sylfaenol ac ysbytai.

Gelwir am yr un weledigaeth yn ystod pedair blynedd hyfforddiant israddedig MPharm. Bydd buddsoddi mewn ansawdd uwch a maint y lleoliadau clinigol yn yr hyfforddiant israddedig yn sicrhau y bydd gan fferyllwyr y sgiliau clinigol, y wybodaeth a'r hyder i fod yn rhagnodydd arbenigol meddyginiaethau yn y tîm amlddisgyblaethol.

Cam hanfodol ar gyfer datblygu ôl-gofrestru'r gweithlu fyddai rhaglen Sylfaen / newydd gymhwyso wedi'i hymgorffori ar gyfer pob gweithiwr fferyllol proffesiynol. Gyda dyfodiad mwy o wasanaethau clinigol yn y lleoliad fferylliaeth gymunedol a mwy o fferyllwyr yn gweithio yn y lleoliadau meddygfeydd teulu, mae'n bwysicach fyth bod cefnogaeth, mentora ac arweiniad pellach ar gael i bob fferylllydd gyrfa gynnar, i ddatblygu eu sgiliau ymhellach a'u meithrin. gyda hyder i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion a'r cyhoedd.

Trwy fuddsoddi mewn addysg fferylliaeth ac aliniad clir o ddatblygiad proffesiynol â chynllunio'r gweithlu cenedlaethol a datblygu gwasanaeth, gall Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod cleifion yn gallu elwa o fynediad i broffesiwn fferyllol sydd wedi'i hyfforddi'n uchel ac yn hyderus wrth ddarparu gofal clinigol ar bob cam o daith y claf.

Er mwyn galluogi cleifion i elwa o sgiliau a gwybodaeth unigryw fferyllwyr, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru nesaf i:

2

Datblygu ymhellach rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr, gan gynnwys cynyddu hyfforddiant ac ymestyn yn genedlaethol gwasanaethau y profwyd eu bod o fudd i gleifion ac yn gwella capasiti.

Mae hyfforddiant clinigol unigryw fferyllwyr a'u dealltwriaeth fanwl o feddyginiaethau yn golygu eu bod yn grŵp gweithwyr iechyd mewn sefyllfa dda i ragnodi meddyginiaethau. Gall fferyllwyr sy'n rhagnodi'n annibynnol ragnodi ar gyfer unrhyw gyflwr o fewn eu cymhwysedd clinigol. Maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio a chynyddu capasiti a mynediad cleifion i ofal o ansawdd uchel.

Ar hyn o bryd mae cleifion yn fwy tebygol o elwa o fferyllwyr sy'n rhagnodi'n annibynnol mewn ysbytai a meddygfeydd. Gall hyn fod trwy ragnodi ar wardiau ysbytai, clinigau cleifion allanol, clinigau meddygon teulu, ymweliadau cartref ac ymweliadau â chartrefi gofal. Rhaid datblygu ac ehangu'r defnydd o fferyllwyr sy'n rhagnodi'n annibynnol yn y lleoliadau hyn fel y gall cleifion a thimau gofal iechyd barhau i elwa o'u sgiliau.

Gall cleifion hefyd elwa o fynediad at ragnodwyr annibynnol mewn rhai fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru. Mae cyflwyno'r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Dewis Fferyllfa wedi galluogi mynediad mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael croeso cynnes gan gleifion, gan alluogi parhad gofal ar benwythnosau a thu hwnt i oriau meddygfeydd meddygon teulu. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth, sy'n dibynnu ar fynediad fferyllwyr i gofnodion cleifion a system gyfathrebu glir rhwng fferyllwyr a meddygon teulu, yn cael ei ddarparu'n gyffredinol ac ond ar gael mewn rhai fferyllfeydd cymunedol yn unig ym mhocedi'r wlad. Rhaid cymryd camau i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn a chyflwyno'r modelau hyn yn genedlaethol fel y gall cymunedau a chleifion ledled Cymru elwa o fynediad at fferyllwyr sy'n ragnodwyr annibynnol. Mae meithrin gallu o fewn y gweithlu fferylliaeth gymunedol bresennol i symud ymlaen a dod yn ragnodwyr annibynnol yn hanfodol er mwyn galluogi'r newid i fynediad cleifion cyffredinol i ragnodydd annibynnol mewn lleoliadau fferylliaeth gymunedol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru nesaf gydnabod sgiliau clinigol fferyllwyr a fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol yn llawn wrth gynllunio'r gweithlu cenedlaethol. Rhaid bod modelau gwasanaeth ar waith i ddefnyddio'r sgiliau rhain ar draws llwybr y claf ac er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad at yr arbenigedd a'r gwasanaethau hynny ac elwa ohonynt.

Er mwyn galluogi cleifion i elwa o sgiliau a gwybodaeth unigryw fferyllwyr, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru nesaf i:

3

Gostwng risg o wallau meddyginiaeth a derbyniadau brys i'r ysbyty trwy ganiatáu i bob fferyllwydd gael mynediad at gofnodion cleifion sy'n cael eu rhannu'n electronig a'u diweddarau.

- Mae deall amgylchiadau cleifion unigol trwy fynediad at gofnodion iechyd cleifion, canlyniadau labordy a dogfennaeth driniaeth flaenorol yn hanfodol i ddiogelwch cleifion. Ac eto i lawer o fferyllwyr, ni chaniateir hyn. Mae'n hanfodol bod modd darllen a mewnbynnu i recordiau cleifion ar gael ar gyfer pob fferyllwydd sy'n darparu gofal clinigol yn y gymuned, ar wardiau ysbytai, mewn adrannau achosion brys, ac mewn meddygfeydd;
- Gwella'n sylweddol y gofal y gall cleifion ddisgwyl ei dderbyn.
- Byddai'n galluogi fferyllwyr i wneud
- penderfyniadau clinigol mwy gwybodus,
- gwella ymlyniad meddygaeth a gostwng nifer y gwallau sy'n gysylltiedig â meddygaeth sy'n cyfrannu at dderbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbyty.
- Bodloni disgwyliadau cleifion bod gan fferyllwyr fynediad arferol i'w cofnodion¹.
- Lleihau'r pwysau ar ymarferwyr gofal sylfaenol eraill.

Ar hyn o bryd mae gwybodaeth cleifion yn cael ei chofnodi mewn sawl man ac nid yw'n hygyrch i bob gweithiwr iechyd proffesiynol, sy'n golygu risg i gleifion. Byddai un cofnod claf sy'n hygyrch i'r holl weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yn galluogi gwell cyfathrebu ar draws y tîm amlddisgyblaethol. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau penderfyniadau clinigol mwy diogel.

¹ EMIS Healthcare. 2014. Public support wider access to GP record. Available at: <https://www.emishealth.com/news-events/news/public-support-wider-access-to-gp-record/>

4

Cyflymu datblygiad a chyflwyno datrysiadau rhagnodi digidol ledled Cymru.

Nid yw rhagnodi yng Nghymru wedi elwa'n helaeth o drawsnewid digidol. Mae presgripsiynau ar bapur yn parhau i gael eu defnyddio ac mae bwlch systemau sylweddol yn atal dull cydgysylltiedig a rhyngweithredol rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd Mae hyn yn cynyddu'r risg o drawsgrifio gwallau ac oedi yn y broses ragnodi ar draws y GIG. Mae hyn yn annerbyniol yn yr 21ain Ganrif pan all datrysiadau digidol liniaru'r problemau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â system ragnodi ar bapur a hyrwyddo ymarfer rhagnodi i wella gofal cleifion a diogelwch meddyginiaethau.

Rhaid i gleifion yng Nghymru allu elwa o ofal di-dor pan ragnodir meddyginiaeth iddynt boed hynny mewn ysbytai neu leoliadau cymunedol. Mae effeithlonrwydd rhagnodi gofal sylfaenol eisoes wedi dechrau cael eu darparu fel mater o drefn trwy drosglwyddo presgripsiynau yn electronig. Rhaid i hyn gael ei ategu gan isadeiledd TG sy'n caniatáu i systemau meddygon teulu a fferylliaeth gymunedol gyfathrebu â'i gilydd. Rhaid i'r seilwaith hwn hefyd allu cysylltu'n ddi-dor â systemau rhagnodi ysbytai i greu datrysiad rhagnodi cydgysylltiedig cadarn, effeithlon a chywir. Mae angen gweithredu ar frys mewn ysbytai i weithredu system rhagnodi a gweinyddu electronig o'r dechrau i'r diwedd i gefnogi rhagnodi a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon. Rhaid i hyn hefyd allu cysylltu â chontractwyr gofal sylfaenol i fewnforio ac allforio gwybodaeth a chefnogi trosglwyddiadau gofal diogel ac effeithlon.

Amlygodd pandemig COVID-19 bwysigrwydd datrysiadau rhagnodi electronig, a allai, pe byddent ar waith yng Nghymru, fod wedi gwella cyfathrebu am bresgripsiynau rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol ym mhob lleoliad gofal iechyd, gwella parhad gofal cleifion a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo firws oherwydd nifer yr ymwelwyr. o un lleoliad gofal i'r llall.

Er mwyn galluogi cleifion i elwa o sgiliau a gwybodaeth unigryw fferyllwyr, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru nesaf i:

5

Sicrhau gofal o'r ansawdd uchaf trwy gefnogi iechyd a lles fferyllwyr a'u timau trwy fynediad at gymorth iechyd meddwl a lles a ariennir gan y GIG.

Mae therapi ffarmacogenomig yn faes gofal iechyd sy'n dod i'r amlwg sy'n cynnwys sefydlu sut y bydd genynnau unigolyn yn effeithio ar y ffordd y mae'n ymateb i feddyginiaethau. Er bod therapïau meddygol datblygedig yn canolbwyntio ar ddefnyddio triniaeth anhwylderau genetig yn ogystal ag atgyweirio ac adfywio meinwe dynol, mae ffarmacomeg yn canolbwyntio ar ddylanwadau amrywiadau genetig mewn ymatebion unigol i feddyginiaethau ac yn helpu i bennu datblygiad meddyginiaethau wedi'u personoli. Amcangyfrifir y gallai ffactorau genetig gyfrannu at rhwng 25% a 50% o ymatebion i feddygaeth amhriodol. Mae ystyried geneteg unigolyn â'r potensial i wella effeithiolrwydd meddyginiaethau yn fawr trwy bersonoli gofal.

Mae fferyllwyr mewn sefyllfa arbennig o dda i arwain ar therapïau ffarmacogenomig a bydd ganddynt rôl gynyddol bwysig yn eu llywodraethu a'u rheolaeth, gan gynnwys defnyddio, storio, trin, logisteg ac ystyriaethau moesegol cyflwyno'r dulliau newydd hyn. Mae ganddynt y wybodaeth wyddonol a chlinigol gyfun a hyfforddiant i gyfleu gwybodaeth gymhleth am gyffuriau mewn ffordd sy'n ddealladwy i gleifion. Mae gan fferyllwyr hefyd y potensial i gynnig cyfle i gleifion elwa o'r technolegau newydd hyn sy'n dod i'r amlwg yn eu cymunedau eu hunain.

Mae yna nifer o enghreifftiau rhyngwladol (Norwy, yr Iseldiroedd, Awstralia, Canada ac UDA)² o wasanaethau sy'n cyflogi fferyllwyr i arwain ar ffarmacomeg. Mae'r gwasanaethau hyn yn caniatáu i fferyllwyr cymunedol adnabod cleifion sy'n dweud bod triniaethau yn rhai aneffeithiol neu sydd wedi profi adweithiau niweidiol i gyffuriau ar gyfer prawf diagnostig genetig yn y fferyllfa. Yna bydd y fferyllwyr yn dehongli ac yn esbonio'r canlyniad wrth y claf cyn cytuno ar unrhyw gamau sydd wedi'u teilwra i gyfansoddiad genetig y claf.

6

Cefnogi fframwaith cyfreithiol i ganiatáu i fferyllwyr cymunedol wneud penderfyniadau proffesiynol wrth gyflenwi meddyginiaethau i gleifion ar adegau o brinder meddyginiaethau.

Gall prinder meddyginiaethau gael effaith sylweddol ar amser ac adnoddau gweithwyr proffesiynol gofal cleifion a gofal iechyd. Mae'n rhaid i fferyllwyr a meddygon teulu dreulio mwy o amser yn delio â phrinder meddyginiaethau*, gyda fferyllwyr cymunedol dan orfodaeth gyfreithiol i gysylltu â rhagnodwyr neu atgyfeirio cleifion yn ôl at ragnodwyr i newid presgripsiynau gwreiddiol, hyd yn oed ar gyfer mân addasiadau. Mae hyn yn rhwystredig i'r claf, fferyllwyr a rhagnodydd oherwydd gall achosi oedi sylweddol o ran mynediad cleifion at feddyginiaethau a chymryd amser gwerthfawr i weithiwr iechyd proffesiynol. At hynny, ar adegau o sefyllfaoedd pandemig neu argyfwng, gall yr effaith ar ofal cleifion ddod yn arbennig o ddifrifol.

Gellir defnyddio arbenigedd clinigol a phroffesiynoldeb fferyllwyr i helpu i reoli parhad gofal i bobl sy'n rhagnodi meddyginiaethau sy'n brin. Er mwyn lliniaru effeithiau negyddol prinder meddyginiaethau, bydd angen newid deddfwriaethol er mwyn caniatáu i fferyllwyr wneud mân newidiadau heb eu cyfeirio'n ôl at y rhagnodydd. Byddai diwygiadau yn caniatáu i fferyllwyr wneud newidiadau i faint, cryfder a ffurf y meddyginiaethau a ragnodir. Ni fyddai'n caniatáu amnewidiad therapiwtig heb drafod gyda'r rhagnodydd. Mae hyn wedi bod yn arfer arferol safonol i fferyllwyr mewn gofal eilaidd ers blynyddoedd ac yn yr Alban lle mae rhestr brinder meddyginiaethau cydnabyddedig. Mae cefnogaeth Llywodraeth nesaf Cymru yn hanfodol bwysig wrth sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli prinder meddyginiaethau yn rheolaidd gan fferyllwyr.

* [1] <https://www.pgeu.eu/publications/press-release-pgeu-medicine-shortages-survey-2019-results/>

² Youssef, E. and Mostafa, S. and Wright, D. 2020. Pharmacogenomic testing and its future in community Pharmacy. The Pharmaceutical Journal, Vol 304, No 7933.

Er mwyn galluogi cleifion i elwa o sgiliau a gwybodaeth unigryw fferyllwyr, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru nesaf i:

7

Gwella ansawdd gofal cleifion trwy warantu amser dysgu ac addysgu wedi'i neilltuo i fferyllwyr ar draws pob sector.

Wrth i reoli iechyd cleifion ddod yn fwy cymhleth oherwydd cynydd cyflyrau tymor hir lluosog a datblygiad meddyginiaethau arloesol newydd, bydd yr angen am fewnbwn fferyllol yn parhau i gynyddu. Rhaid i'r cyhoedd fod yn sicr y gall fferyllwyr ddarparu gwasanaethau cynyddol gymhleth yn ddiogel. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt adeiladu ar eu cymhwysedd yn barhaus a datblygu ar eu hymarfer yn gyson.

Nid yw fferyllwyr yn derbyn amser wedi'i neilltuo yn rheolaidd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a'i addysgu. Ar hyn o bryd, anaml y mae cynllunio gweithlu fferyllol yn ystyried amser a chost addysg a hyfforddiant. Datgelodd arolwg yn 2020 gan y Pharmaceutical Journal nad yw bron i dri chwarter y fferyllwyr cymunedol yn elwa o unrhyw amser dysgu gwarchoddedig.

Bydd unrhyw hyfforddiant ac addysgu a wneir gan aelodau'r tîm fferylliaeth yn rhoi straen ar gydweithwyr eraill yn y tîm, gan ychwanegu at bwysau gwaith. Bellach mae angen tegwch ar draws pob proffesiwn, gan sicrhau bod amser dysgu wedi'i neilltuo a'i ariannu ar gyfer fferyllwyr yn cael ei wreiddio wrth gynllunio'r gweithlu. Gellid cyflawni hyn trwy ddefnyddio mwy o dechnoleg - pecynnau rhithwir neu e-ddysgu - ynghyd ag atebion i amddiffyn amser fferyllwyr fel yr hyblygrwydd a gyflwynwyd yn ystod y pandemig COVID-19 i amddiffyn amser fferyllwyr i ddelio ag ymholiadau cymhleth ac i flaenoriaethu llwythi gwaith.

8

Sicrhau gofal o'r ansawdd uchaf trwy gefnogi iechyd a lles fferyllwyr a'u timau trwy fynediad at gymorth iechyd meddwl a lles a ariennir gan y GIG.

Mae'r heriau o fodloni'r gofynion cynyddol a roddir ar y gwasanaeth iechyd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles gweithwyr iechyd proffesiynol. Nid yw'r gweithlu fferyllol yn ddim gwahanol gydag arolwg diweddar o aelodau RPS yn nodi bod fferyllwyr yn teimlo dan straen ac o dan bwysau yn rheolaidd. Yn bryderus, nododd 89% o'r holl ymatebwyr eu bod yn teimlo risg uchel o 'burnout' fel y'i mesurwyd gan yr Oldenburg Burnout Inventory.

Fe wnaeth pandemig Covid-19 ddwysau'r angen am gefnogaeth iechyd meddwl a lles gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ar y rheng flaen. Fel yr unig broffesiwn iechyd i gadw drysau yn gwbl agored i'r cyhoedd yn ystod y pandemig, fe deimlodd fferyllwyr cymunedol a'u timau grym llawn yr argyfwng. Rhoddodd yr argyfwng fynediad am y tro cyntaf i fferyllwyr cymunedol at fuddion gwasanaethau cwnsela a ddarperir i weithwyr y GIG. Fel gweithwyr proffesiynol unigol sy'n darparu gofal heb ei drefnu trwy gydol diwrnod gwaith naw awr o hyd, mae angen mynediad at gymorth lles ar fferyllwyr cymunedol. Rhaid sicrhau bod mynediad cyfartal at gymorth lles a ariennir gan y GIG ar gael i fferyllwyr gofal cymunedol a sylfaenol, nid yn unig i ymdopi â phwysau a chanlyniadau'r pandemig ond yn barhaus ac yn rheolaidd.⁷



I ddarparu gofal iechyd hygyrch

Ar y strydoedd fawr ledled Cymru, mae fferyllfeydd cymunedol yn rhoi mynediad cyflym i gleifion at gyngor a chefnogaeth gofal iechyd gan weithiwr iechyd proffesiynol. Maent yn adnodd arbennig o werthfawr mewn ardaloedd gwledig lle gall y feddygfa feddyg teulu agosaf fod filltiroedd i ffwrdd ac mewn ardaloedd difreintiedig fel ffordd o leihau anghydraddoldebau iechyd a gwrthdroi'r ddeddf gofal gwrthgyfartal.



I wella canlyniadau clinigol

Fel yr arbenigwyr mewn meddyginiaethau a'u heffaith ar y corff, gall fferyllwyr gynorthwyo cleifion i gael y budd mwyaf o'u meddyginiaethau. Gan ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth unigryw, mae fferyllwyr yn sicrhau bod meddyginiaethau'n rhyngweithio â'i gilydd yn effeithiol ac yn ddiogel, yn teilwra dosau yn briodol ac, mewn rhai achosion, yn rhagnodi meddyginiaethau newydd ac yn dad-ragnodi meddyginiaethau cyfredol nad ydynt o fudd pellach i'r claf.



I sicrhau gwerth am arian o feddyginiaethau

Gyda'u gwybodaeth unigryw o feddyginiaethau, mae fferyllwyr yn ased hanfodol i sicrhau bod y buddsoddiad blynyddol sylweddol mewn meddyginiaethau yn cael ei wario'n ddoeth ac mewn modd cost-effeithiol. Maent yn gwneud hyn trwy gefnogi rhagnodi priodol a thrwy weithio gyda chleifion i ddad-ragnodi meddyginiaethau amhriodol c aneffeithiol.



I atal niwed y gellir ei osgoi

Pan gânt eu defnyddio'n anghywir gall meddyginiaethau achosi niwed sylweddol i gleifion. Mae defnydd amhriodol ar feddyginiaeth hefyd yn cyflwyno heriau annisgwyl fel derbyniadau heb eu cynllunio ac mewn argyfwng i'r ysbyty o ganlyniad i adweithiau niweidiol i gyffuriau. Mae sicrhau bod gan gleifion a gweithwyr iechyd proffesiynol fynediad at fferyllwyr a'u gwybodaeth arbenigol am feddyginiaethau yn hanfodol i leihau'r risgiau hyn.

Pam mae angen arbenigedd fferyllwyr ar Gymru




I feithrin capasiti mewn gofal sylfaenol

Mae fferyllwyr mewn sefyllfa dda i gynyddu mynediad at ofal i gleifion mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol trwy chwarae rôl gynyddol wrth reoli anhwylderau cyffredin, cyflyrau aciwt a chyflyrau hirdymor. Gall hyn alluogi mwy o amser a chapasiti i feddygon teulu ar gyfer apwyntiadau hirach a chanolbwyntio ar ddiagnosis a rheoli cleifion mwy cymhleth.

Sut y gallwch chi helpu

Ydych chi'n ymgeisydd yn etholiad Cymru 2021?



- Ymwelwch â fferylllydd lleol, cymerwch photo, gwrandewch ar sut mae fferyllwyr yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i iechyd eich cynorthwywyr
- Cyfnogwch ein galwadau trwy thrydar **#votepharmacy_Wales** i'r RPS **@Rpharms_Wales** (gallwch hefyd ddod o hyd i ni ar Facebook)
- Dywedwch wrth eich cynorthwywyr am sut rydych chi'n cefnogi'r proffesiwn fferylliaeth

Ynglŷn â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yw'r corff proffesiynol ar gyfer fferyllwyr a fferylliaeth ym Mhrydain Fawr.

Rydym yn arwain ac yn cefnogi datblygiad y proffesiwn fferylliaeth i wella iechyd a lles y cyhoedd, trwy ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth, ymchwil ac addysg.

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

2 Ashtree Court
Cardiff Gate Business Park
Pontprenau
Cardiff
CF23 8RW

Rhif ffon: 02920 730310

E-bost: Wales@rpharms.com

 [@RPS_Wales](https://twitter.com/RPS_Wales)

Ewch i www.rpharms.com
i gael mwy o wybodaeth